# Cronfa Fenthyciadau Gwynedd

# Canllawiau Gwybodaeth i Ddarpar Ymgeiswyr

Mae ffurflenni cais ar gael gan Dîm Cefnogi Busnes Cyngor Gwynedd ar 01286 679231 neu e-bost: busnes@gwynedd.llyw.cymru - rhaid i bob darpar ymgeisydd gysylltu â'r Tîm Cefnogi Busnes er mwyn trafod ei gynnig cyn cyflwyno cais.

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

**1. CYFLWYNIAD........................................................................................ 3**

**2. MANYLION Y BENTHYCIAD.............................................................3**

2.1 Maint, cyfnod a diogelwch y buddsoddiad.........................................3

2.2 Busnesau cymwys............................................................................3

2.3 Prisio...................................................................................................5

**3. Y BROSES FENTHYCA.........................................................................5**

3.1 Ymholiadau Cychwynnol.....................................................................5

3.2 Cais am Fenthyciad a'i Brosesu...........................................................5

# 1. CYFLWYNIAD

Fel rhan o'i strategaeth i ymateb i'r dirwasgiad economaidd, cyhoeddodd Cyngor Gwynedd y ddogfen "Ymateb i'r Dirwasgiad" ym mis Mai 2009. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys rhaglen o gynlluniau ac ymyraethau i gefnogi unigolion, busnesau, a chyrff cymunedol i sefydlogi a datblygu mewn cyfnod o ansicrwydd economaidd.

Un o'r cynlluniau a gynhwyswyd yn y ddogfen oedd ystyried gwahanol opsiynau ar gyfer sefydlu Cronfa Fenthyciadau Lleol newydd i fusnesau yng Ngwynedd. Comisiynodd Cyngor Gwynedd waith er mwyn ymchwilio ymhellach i wahanol opsiynau i sefydlu cronfa fyddai'n hwyluso mynediad busnesau at gyllid i fuddsoddi.

Ym mis Tachwedd 2010, cymeradwyodd Bwrdd Cyngor Gwynedd y bwriad o sefydlu Cronfa Fenthyciadau fewnol.

Bydd benthyciadau bach rhwng £25k a £100k ar gael gan y Gronfa a bydd cyfle i ymgeisio am symiau mwy mewn amgylchiadau ble mae tystiolaeth glir bod angen cymorth ariannol i ddatblygu neu ehangu'r busnes.

# 2. MANYLION Y BENTHYCIAD

## 2.1 Maint, cyfnod a diogelwch y buddsoddiad

Bydd Cronfa Fenthyciadau Gwynedd yn gronfa o hyd at £3 miliwn.

Bydd benthyciadau bychan rhwng £25k a £100k ar gael, ynghyd â chyfle i fenthyca symiau mwy (Benthyciadau Ased hyd at £750k) cyn belled ag y cefnogir hyn â gwarant yn seiliedig ar ased gwerthfawr (tir ac adeiladau fel arfer).

Cyfnod arferol benthyciad bychan fydd rhwng 36 a 60 mis; bydd benthyciad Ased fel rheol yn para am gyfnod o 60 mis neu fwy.

Dylid sicrhau sicrwydd dros asedau busnes ble y bo modd er y derbynnir y gall fod yn gyffredin cael arwystlon ar ôl bancwyr y cwmni. Fodd bynnag, wrth gydbwyso risgiau'r perchennog yn erbyn risgiau'r Gronfa, dylid sicrhau gwarantau personol (er nid sicrwydd dros asedau personol), pan fo hynny'n briodol.

Gellir caniatáu seibiant ad-dalu cyfalaf am hyd at 3 mis (ac am hyd at 6 mis mewn amgylchiadau arbennig) yng nghyswllt benthyciadau bychan. Ni chaniateir seibiant ad-dalu cyfalaf yng nghyswllt benthyciadau Ased dros £100k.

## 2.2 Busnesau sy'n gymwys i dderbyn cefnogaeth

Mae'r Gronfa yn gweithredu y tu mewn i ffiniau Cyngor Gwynedd ac fe ddylai pob busnes fod â'i ganolfan weithredol neu fod â nifer sylweddol o'i weithwyr parhaol llawn amser wedi'u lleoli y tu mewn i ffiniau Gwynedd.

Cyfyngir cymhwyster i fusnesau (yn cynnwys mentrau cymdeithasol), i Fusnesau Bach neu Ganolig eu maint (BBC). Mae'r rhain yn fusnesau:

- sydd â llai na 250 o weithwyr a throsiant o hyd at €50 miliwn neu fantolen o hyd at €43 miliwn (diffiniad y UE o gwmni canolig ei faint.);
- sy'n medru dangos eu bod wedi bod yn aflwyddiannus wrth geisio sicrhau arian yn y sector masnachol; a
- sydd â chynlluniau busnes dichonadwy

- rhaid i holl ymgeiswyr y gronfa dystio bod ganddynt bolisïau/datganiadau amgylcheddol, iechyd a diogelwch, cyfle cyfartal ac anabledd yn eu lle.

Pwrpas y benthyciad hwn yw rhoi cefnogaeth i greu, ailstrwythuro, datblygu neu ehangu busnes ac ni fydd ymgeiswyr sy'n dymuno ei ddefnyddio i glirio dyledion neu fenthyciadau cyfredol gan fenthycwyr (er enghraifft, fel mecanwaith ar gyfer rheoli dyled wael), yn gymwys.

Yn ogystal, rhaid i'r holl fusnesau sy'n gymwys i gael mynediad at y gronfa ddangos eu potensial drwy gynnig tystiolaeth o bump o'r nodweddion a ganlyn, fan leiaf:

1. Dyhead ac agwedd yr entrepreneur, perchennog/rheolwr ac uwch reolwyr
2. Gallu a chapasiti'r tîm arweiniol
3. Chwilio am arian o ffynonellau allanol
4. Tystiolaeth o lyfr archebion cadarn
5. Potensial yn y galw gan gwsmeriaid
6. Gwybodaeth drwyadl am y diwydiant a'r sector
7. Pwrpas twf clir – e.e. buddsoddi, arloesi, ehangu, ailstrwythuro.
8. Tystiolaeth o'r parodrwydd a'r gallu i arloesi.

Yn gyffredinol, bydd pob sector yn gymwys i dderbyn cymorth gan y Gronfa; er gwaetha'r ffaith bod llywodraethau'r Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig yn gosod cyfyngiadau ar y sectorau busnes a bydd angen i'r Gronfa brofi ei gallu i wneud buddsoddiadau yn y sectorau hyn. Er enghraifft, os yw arian Cydgyfeiriant yn cael ei dderbyn naill ai fel rhan o swm y Gronfa neu i gefnogi rheolaeth y Gronfa, bydd angen eithrio sectorau anghymwys.

***D.S. Pe derbynnid arian Cydgyfeiriant naill ai fel rhan o swm y Gronfa neu fel cefnogaeth i reoli'r Gronfa, bydd angen i sectorau anghymwys gael eu heithrio fel a ganlyn:***

*(i)* *Y rhai a ddiogelir gan <u>gyfyngiadau sector y Gymuned Ewropeaidd;</u> yn cynnwys ffibrau synthetig, tecstilau a dillad, adeiladu llongau, glo a dur, amaethyddiaeth a phrosesu bwyd.*

*(ii)* *Banciau a chwmnïau yswiriant.*

*(iii)* *Sefydliadau addysg sy'n darparu addysg oedran ysgol. Gall y mentrau sy'n cynnig addysg dechnegol neu hyfforddiant galwedigaethol fod yn gymwys;*

*(iv)* *Darpariaeth cyfleusterau lles cymdeithasol lleol e.e. ysbytai, cartrefi nyrsio, gorsafoedd tân, meithrinfeydd dydd, cyfleusterau gofal plant, cyfleusterau chwaraeon, parciau, llyfrgelloedd cyhoeddus oni bai eu bod yn gysylltiedig â gweithgareddau economaidd (e.e. mentrau cymdeithasol);*

*(v)* *Cyfleusterau Manwerthu – ac eithrio eithriadau prin, er enghraifft, ble mae darpariaeth neu welliant allanfa fanwerthu yn rhan hanfodol bwysig o strategaeth datblygu economaidd gyffredinol.*

*(vi)* *Adeiladu ac adnewyddu tai yn gyffredinol, er fel rhan o strategaeth ehangach i adfywio'r ardal, gall gwella ystadau allanol ac adeiladau amlwg mewn lleoliadau allweddol gael eu cefnogi pan mae cyswllt agos rhyngddynt hwy ag amcanion y Rhaglen Cydgyfeiriant.*

### 2.3 Prisiau

Codir cyfradd llog o 7.5%, 10% neu 12.5% ar yr holl fenthyciadau yn dibynnu ar amgylchiadau'r busnes (adolygir yn flynyddol, fan leiaf, yn seiliedig ar gyfraddau llog y farchnad a llwyddiant y busnesau i ad-dalu'r benthyciadau i Gyngor Gwynedd).

Bydd yn rhaid codi Ffi Trefnu o hyd at 1% am fenthyciadau unigol i dalu am unrhyw gostau perthnasol – i'w adolygu'n flynyddol, fan leiaf.

## 3. Y BROSES FENTHYCA

Bydd mynediad a gwybodaeth ar gael drwy sawl dull:

### 3.1 Ymholiadau Cychwynnol

- Bydd manylion y gronfa, meini prawf cymhwyster a ffurflenni ymholiad i'w cael ar wefan Cyngor Gwynedd. Bydd cyfeiriad e-bost ynghlwm wrth y ffurflen ymholiad fel y gellir cyflwyno'r ffurflen yn uniongyrchol i ymholiadau Cyngor Gwynedd.
- Bydd Tîm Cefnogi Busnes Cyngor Gwynedd yn gallu rheoli ymholiadau uniongyrchol gan gleientiaid neu ganolwyr posib.
- Dylid dychwelyd ffurflenni ymholiad (print neu electronig) i Gyngor Gwynedd er mwyn derbyn ymateb cychwynnol.

Fe asesir ymholiadau cychwynnol ar sail cymhwyster fel y nodir uchod. Mae'r rhain yn cynnwys natur y cais a'r swm, lleoliad a materion sector a dadleoli. Os yw'r busnes yn gymwys, bydd y telerau ariannol yn cael eu hegluro a bydd ffurflenni cais yn cael eu darparu ynghyd â chanllawiau benthyciad sy'n rhoi manylion ynghylch pa ddogfennaeth gefnogol fydd angen ei chyflwyno.

### 3.2 Cais am Fenthyciad a'i Brosesu

<u>Ceisiadau</u>

Bydd y Tîm Cefnogi Busnes yn derbyn y ffurflenni cais ac yn dilyn dau gam cymhwyso:

1. Cynnal gwerthusiad, wrth y ddesg, o'r ffurflen gais, y cynllun busnes a'r ddogfennaeth gefnogol. Os bydd yn foddhaol, yna
2. Trefnir bod y ceisiadau cyflawn yn cael eu hanfon ar yr Ymgynghorydd Ariannol fel y gall gynnal gwerthusiad ariannol ac asesiad manwl ohonynt.

<u>Gwerthuso wrth y ddesg</u>

- Gwerthusiad masnachol: Bydd pob cais yn cael ei werthuso gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar egwyddorion ymarfer benthyca da, yn cynnwys gwirio credyd, sgorio a gwerthuso'r ffurflen gan ddefnyddio meini prawf, prawf adnabod (ID), gwrthodiad banc a chynllun busnes.

<u>Gwerthuso Ceisiadau am Fenthyciad</u>

- Bydd yr Ymgynghorydd Ariannol a benodir, yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarperir gan yr ymgeisydd, yn darparu adroddiad cynhwysfawr yn cynnwys cydnabyddiaeth o unrhyw risg sydd ynghlwm â'r buddsoddiad, gwybodaeth am unrhyw gyflyrau marchnad cyfredol ac argymhelliad clir a chryno i'w gyflwyno i Banel Benthyciadau Cyngor Gwynedd.

Bydd angen yr wybodaeth a ganlyn er mwyn asesu'r ceisiadau am fenthyciad:-

- Cynllun busnes sy'n nodi manylion y busnes a'i gynlluniau ar gyfer y dyfodol
- CV manwl ar gyfer holl berchnogion, cyfarwyddwyr a phartneriaid y busnes
- Cyfrifon wedi'u harchwilio am y tair blynedd ddiwethaf
- Copïau o gyfriflenni banc y chwe mis diwethaf
- Rhagamcanion o'r fantolen, Elw a Cholledion a llif arian am y ddwy flynedd nesaf
- Eich cyfrifon rheoli diweddaraf a rhestr dyledwyr/credydwyr yn nhrefn amser (os ydynt ar gael)
- Eich Tystysgrif Ymgorfforiad (os ydyw ar gael)
- Tystiolaeth i gadarnhau bod darpar ymgeiswyr wedi cysylltu, yn y lle cyntaf, â'u banc, er mwyn trafod eu hanghenion ariannu

Panel y Gronfa Fenthyciadau

Sefydlir Panel y Gronfa Fenthyciadau a bydd ganddo'r datganiad o bwrpas a ganlyn:

- Rhoi ystyriaeth haeddiannol i geisiadau i'r gronfa fenthyciadau a gyflwynir i Gyngor Gwynedd gan fusnesau lleol.

- Argymell cymeradwyo ceisiadau i'r gronfa fenthyciadau neu beidio, ynghyd ag amodau a thelerau penodol yng nghyswllt y cyfnod ad-dalu a, pan fo'n bosib a phriodol, cael gwarant dros yr asedau busnes.

Gall y Panel wneud un o bedwar penderfyniad posib:

  - Angen gwybodaeth bellach
  - Cytuno heb amodau
  - Cytuno gydag amodau
  - Gwrthod y cais am fenthyciad

Hysbysir yr ymgeisydd ynghylch canlyniad Panel y Gronfa Fenthyciadau o fewn 48 awr. Os gwrthodir y cais, fe hysbysir yr ymgeisydd ynghylch y Drefn Apêl.

Cynigion y Drefn Apêl

- Bydd gan y cleient yr hawl i apelio os yw'r cais yn cael ei wrthod, ond bydd gofyn i'r cleient gyflwyno'i apêl yn ysgrifenedig cyn pen 7 diwrnod gwaith gan nodi rhesymau penodol am yr apêl.
- Cyflwynir yr Apêl yng nghyfarfod nesaf Panel y Gronfa Fenthyciadau ac hysbysir y cleient ynghylch y penderfyniad.

Cytundebau Benthyciadau

- Cyflwynir Cytundeb Benthyciad ynghyd ag unrhyw ddogfennau angenrheidiol eraill megis gwarantau Cyfarwyddwr, dogfennau sicrwydd a ffurflenni gorchymyn sefydlog. Cyflwynir Cytundebau Benthyciad cyn pen 10 diwrnod gwaith o gymeradwyo'r cais.
- Dan amgylchiadau penodol, bydd angen sicrwydd fel modd o Arwystl Gyfreithiol. Dan yr amgylchiadau hyn bydd Cyngor Gwynedd yn gofyn am wybodaeth ddigonol ynghylch unrhyw eiddo ym mherchnogaeth yr ymgeisydd fel y gall fwrw ymlaen.
- Bydd gan ymgeiswyr 30 diwrnod i dderbyn telerau ac amodau'r cynnig benthyciad; wedi hynny daw'r cynnig i ben.

- Yn dilyn derbyn y cynnig a chwblhau unrhyw ddogfennaeth sicrwydd angenrheidiol, bydd y benthyciad yn barod i'w ddefnyddio.

Talu

- Telir y benthyciad trwy BACS i gyfrif banc dynodedig yr ymgeisydd.
- Didynnir unrhyw ffioedd trefnu neu ffioedd sicrwydd o'r benthyciad ac fe gadarnheir manylion y didyniadau yn y nodyn talu.